


Annwyl riant / gofalwr,

Wrth i ni groesawu disgyblion yn ôl ar ôl hanner tymor, mae'n amser da i'ch diweddarau ar ddatblygiadau a dyddiadau allweddol ar gyfer eich dyddiadur.

Covid19

Byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi newid eu cyngor i ysgolion ynghylch profion Covid-19. Mae'r newidiadau allweddol yn ymwneud ag aelodau o'r cartref sydd wedi profi'n positif am covid. O hyn ymlaen, dylai disgyblion nad ydyn nhw'n arddangos symptomau, ond sy'n byw yn yr un cartref â rhywun sydd wedi profi'n positif, neu'n aros am ganlyniad prawf PCR, aros gartref. Os bydd prawf PCR aelod y teulu yn dychwelyd canlyniad positif yna dylai pob aelod o'r teulu archebu prawf PCR a hunan-ynysu nes bod yr holl ganlyniadau yn ol. Dim ond os yw canlyniad eu prawf PCR yn negyddol y dylai disgyblion dychwelyd i'r ysgol. Dangosir y newidiadau yn y diagram canlynol.



I'ch atgoffa, mae'r canllawiau ynghylch achosion covid yn nodi:

- Os yw'ch plentyn wedi profi'n positif gan ddefnyddio prawf LFT, dylech archebu prawf PCR cyn gynted â phosibl. Dylech gadw'ch plentyn gartref tan ganlyniad y prawf.
- Os yw'ch plentyn yn arddangos unrhyw un o'r symptomau sy'n gysylltiedig â covid-19, dylech archebu prawf PCR cyn gynted â phosibl. Fel uchod, dylech gadw'ch plentyn gartref tan ganlyniad y prawf. Mae'r symptomau ar gyfer covid yn cynnwys cyfuniad o beswch parhaus, tymheredd uchel a cholli blas (ac arogl o bosibl). Gall symptomau ychwanegol gynnwys teimlo'n sâl neu'n flinedig ac o bosibl dolur rhydd.

Rhowch wybod i'r ysgol os yw unrhyw un o'r uchod yn berthnasol i'ch plentyn. Bydd disgyblion nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol am resymau covid-19 yn gallu cael mynediad i'w gwaith ysgol trwy Google Classrooms.

Cyfeiriad/Address: Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT
Rhif ffôn/Tel: 01348 872268 Ffacs/Fax: 01348 872716
E-bost/E-mail: office@ysgolbrogwaun.com



Mae'r nifer o achosion cadarnhaol yn yr ysgol yn cynyddu ar draws yr holl grwpiau blwyddyn a hefyd yn cynnwys rhai aelodau o staff. Hefyd, o ganlyniad i'r rheolau newydd, mae nifer cynyddol o staff a disgyblion yn hunan-ynysu ac yn aros am ganlyniadau profion. Mae'r ysgol yn parhau i weithredu'n dda fodd bynnag, gyda lefelau presenoldeb yn parhau'n uchel ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Unwaith eto, hoffwn ddiolch i'r holl rieni a gofalwyr am eu cefnogaeth a'u penderfyniadau synhwyrol ynglŷn â'r mater hwn. Fel erioed, mae sicrhau cyfathrebu da rhwng yr ysgol a'r cartref yn allweddol i gynnal ymateb effeithiol i her barhaus coronafirws.

Rwy'n annog pob disgybl i gymryd rhan yn ein rhaglen Profi Llif Ochrol. Mae hon yn strategaeth allweddol i'n helpu i frwydro yn erbyn y firws. Cysylltwch â wendy.davies@ysgolbrogwaun.com i dderbyn eich citiau profi am ddim.

Cynhyrchiad ysgol o 'We Will Rock You'.

Rydym wedi gwneud y penderfyniad anodd i ohirio ein cynhyrchiad ym mis Rhagfyr. Bydd y cynhyrchiad nawr yn digwydd yn ystod wythnos y 7fed o Fawrth, gyda'r bwriad o gynnal 3 pherfformiad nos yn ystod yr wythnos honno. Byddwn yn rhoi manylion i chi ar sut i brynu tocynnau ac unrhyw drefniadau arall yn agosach at amser y perfformiadau.

Hyfforddiant chwaraeon a gemau ysgol.

Mae'r adran AG yn parhau i redeg rhaglenni hyfforddi ar ôl ysgol a bydd gemau chwaraeon ysgol i ysgol hefyd yn parhau. Mae'r rhaglen hyfforddi wythnosol yn cael ei hysbysebu ar draws yr ysgol. Os oes gan eich plentyn ddiddordeb mewn cymryd rhan, gofynnwch iddynt weld Mr Hughes neu Mrs Page-Jones yn yr adran AG, yr wyf yn siŵr y byddent yn falch iawn o'u croesawu.

Noson ymgynghori â rhieni Blwyddyn 7 - Dydd Mercher 17eg Tachwedd.

Dyma gyfle i ni rannu gyda chi y cynnydd y mae eich plentyn yn ei wneud yn YBG a rhoi syniad ichi o ba mor dda y maent wedi setlo. Digwyddiad rhithiol fydd hwn gan ddefnyddio system ar-lein o'r enw School-Cloud. Mae hon yn system a ddefnyddiwyd gennym yn llwyddiannus y llynedd gyda phob un o'n grwpiau blwyddyn a bydd yn caniatáu ichi siarad ag athrawon mewn fformat 'speed-dating'. Bydd manylion ar sut i gael mynediad i'r system a sut i archebu slotiau cyfarfod eisoes wedi'u hanfon atoch. Cysylltwch â'r ysgol os ydych chi'n rhiant / gofalwr disgybl ym mlwyddyn 7 ac nad ydych wedi derbyn unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r noson hon. Rydym yn edrych ymlaen at eich gweld ar y sgrin ar yr 17eg.

Arholiadau ffug blwyddyn 11 a gwybodaeth am arholiadau TGAU.

Bydd arholiadau ffug TGAU yn cael eu cynnal rhwng dydd Mercher 17eg Tachwedd a dydd Llun 29ain Tachwedd.

Mae disgyblion blwyddyn 11 wedi derbyn eu hamserlenni yn barod. Gellir gweld copi [yma](#).

Ar hyn o bryd, safbwynt Llywodraeth Cymru a 'Cymwysterau Cymru' yw y dylai arholiadau ddychwelyd i normal yn ystod Haf 2022, gyda disgyblion yn eistedd arholiadau wedi'u gosod a'u marcio yn allanol mewn lleoliad arholiadau ffurfiol fel neuadd yr ysgol. Bydd yr arholiadau ffug yn rhoi'r profiad gwerthfawr y mae myfyrwyr wedi colli allan arno dros eu blynyddoedd diwethaf yn yr ysgol. Bydd hefyd yn dangos mesur o gynnydd a gwybodaeth i ddisgyblion ac athrawon ynghylch meysydd y mae angen i ddisgyblion eu gwella.

Er mai bwriad Llywodraeth Cymru yw i dychwelyd i arholiadau arferol, mae eu llythyr diweddaraf yn cydnabod efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd covid, ac efallai y bydd yn rhaid ystyried ffyrdd eraill o asesu perfformiad a penderfynu ar graddau. Maent yn nodi y gallai fod angen defnyddio trefniadau tebyg i ffurf proses 'Graddio Penderfynol Canolfan', yn debyg i'r broses a gynhaliwyd mewn ysgolion eleni. Byddwn yn cael gwybod am eu penderfyniad yn agosach at amser yr arholiadau. Er ein bod yn gobeithio na fydd angen addasiadau i'r broses arholi, dylem ystyried y senario waethaf, yn yr ystyr y gall disgyblion gael eu graddio ar sail y dystiolaeth y maent yn ei chynhyrchu yn ystod y flwyddyn ysgol, gan gynnwys canlyniadau eu arholiadau ffug. Pwysleisiaf na fydd graddau TGAU terfynol yn dibynnu'n llwyr ar canlyniadau'r arholiadau hyn, ond gellir defnyddio canlyniadau'r arholiadau ffug fel rhan o'r dystiolaeth a ddefnyddir i lunio barn derfynol ar raddau TGAU. Gallwn defnyddio tystiolaeth arall a gasglwyd trwy gydol y flwyddyn hefyd ac fe fyddwn yn rhoi gwybod i ddisgyblion pa asesiadau y gellir eu defnyddio i lywio ein dyfarniadau. Gweler y [llythyr diweddaraf](#) gan Cymwysterau Cymru. Byddwn wrth gwrs yn rhannu ddatblygiadau gyda chi wrth i ni eu derbyn.

Arholiadau Blwyddyn 8.

Bydd arholiadau blwyddyn 8 yn cael eu cynnal rhwng dydd Mawrth 30 Tachwedd a dydd Gwener 3ydd Rhagfyr. Gellir gweld yr amserlen [yma](#).

Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth barhaus yn ystod yr amseroedd heriol hyn.



Paul Edwards